

Dydd Mawrth, 1 Mehefin 2021

Dear Cyngorwyr,

CABINET

Gofynnir i chi fynychu cyfarfod **Cabinet** a gynhelir yn **County Hall, Usk - Remote Attendance** ar **Dydd Mercher, 9fed Mehefin, 2021**, am **3.00 pm**.

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiadau o Fuddiant
3. I ystyried yr adroddiadau canlynol (copdau ynghlwm):
 - i. **STRATEGAETH CORONAFEIRWS: CYNNYDD A'R CAMAU NESAF** 1 - 32
Adran/Wardiau yr Effeithir arnynt: I gyd
-
Pwrpas: I ddarparu trosolwg o'r cynnydd ar nodau strategol y Cyngor a osodwyd gan y Cabinet yn Strategaeth y Gaeaf.

Cymeradwyo strategaeth awdurdod cyfan wedi'i diweddarau ar gyfer haf a dechrau hydref 2021 a fydd yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol wrth i ni barhau i ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun y pandemig.
-
Awduron: Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi, Perfformiad a Chraffu
Emma Davies, Swyddog Perfformiad
-
Manylion Cyswllt: matthewgatehouse@monmouthshire.gov.uk
emmadavies@monmouthshire.gov.uk
 - i. **SIR NODDFA** 33 - 46
Adran/Wardiau yr Effeithir arnynt: I gyd
-
Pwrpas: Sicrhau bod Sir Fynwy yn chwarae ei rhan wrth letya a chefnogi nifer fach o geiswyr lloches fel rhan o'r weledigaeth i Gymru fod yn genedl noddfa sy'n darparu hafan ddiogel i'r rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth.

Awdur: Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi, Perfformiad a Chraffu
-
Manylion Cyswllt: matthewgatehouse@monmouthshire.gov.uk
_tthewgatehouse@monmouthshire.gov.uk

i. **DATGANIAD ALL-DRO REFENIW A CHYFALAF 2020/21**

47 - 100

Adran/Wardiau yr Effeithir arnynt: I gyd

Pwrpas: Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i Aelodau am sefyllfa canlyniad referniw a chyfalaf yr Awdurdod yn seiliedig ar lithrant gyfalaf a defnydd a gohiriad cronfa wrth gefn.

Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cael ei ystyried gan Bwyllgorau Dethol fel rhan o'u cyfrifoldeb i,

- asesu a yw monitro cyllideb effeithiol yn digwydd,
- monitro i ba raddau y mae cyllidebau'n cael eu gwario yn unol â'r fframwaith cyllideb a pholisi cytunedig,
- herio rhesymoldeb gor-amcanestyniadau neu danwariant, a
- monitro cyflawniad enillion neu gynnydd effeithlonrwydd a ragwelir mewn perthynas â chynigion arbedion.

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith ariannol y pandemig Covid-19 ar y Cyngor.

Awdur: Peter Davies, Dirprwy Brif Weithredwr (Prif Swyddog Adnoddau)
Jonathan Davies, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol Dros Dro (Dirprwy swyddog S151)

Manylion Cyswllt: peterdavies@monmouthshire.gov.uk
jonathandavies2@monmouthshire.gov.uk

i. **CYFLEOEDD CYLLIDO LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG:
CRONFA CODI'R GWASTAD A'R GRONFA ADNEWYDDU
CYMUNEDOL**

101 -
116

Adran/Wardiau yr Effeithir arnynt: I gyd

Pwrpas: Ystyried cynigion y Cyngor ar gyfer eu cyflwyno i ddau gyfle cyllido gan Lywodraeth y DU; Cronfa Lefelu i Fyny a'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol a darparu trosolwg strategol o'r prosiectau sy'n dod i'r amlwg a'r meysydd blaenoriaethol.

Awdur: Frances O'Brien, Prif Swyddog Menter

Manylion Cyswllt: francesobrien@monmouthshire.gov.uk

i. **NEUADD Y SIR / AMGUEDDFA TREFYNWY**

117 -
138

Adran/Wardiau yr Effeithir arnynt: Drybridge

Pwrpas: Diweddarau aelodau gyda chynnydd ar yr astudiaeth ddichonoldeb i sefydlu Cyrchfan ddiwylliannol newydd yn Neuadd y Sir Trefynwy gan gynnwys adleoli'r Amgueddfa Trefynwy cyfredol a'r adolygiad o storio casgliadau amgueddfeydd.

Cynnig dull graddol o ymdrin â'r ddarpariaeth newydd

Awduron a Manylion Cyswllt: Ian Saunders - Prif Swyddog Gweithredol
MonLife —

E-bost: iansaunders@monmouthshire.gov.uk Ffôn: 07876545793

Matthew Lewis - Rheolwr yr Amgylchedd a Diwylliant MonLife
E-bost: matthewlewis@monmouthshire.gov.uk Ffôn: 07990783165

Tracey Thomas - Rheolwr Ymgysylltu a Datblygu'r Gweithlu MonLife
E-bost: traceythomas@monmouthshire.gov.uk Ffôn: 07818 016924
Matthew Lewis – Environment & Culture Manager MonLife
Email: matthewlewis@monmouthshire.gov.uk Tel: 07990783165

Tracey Thomas - Engagement and Workforce Development Manager
MonLife
Email: traceythomas@monmouthshire.gov.uk Tel: 07818 016924

i. **DIGIDOL A DATA**

139 -
184

Adran/Wardiau yr Effeithir arnynt: I gyd

-
Pwrpas: I ddarparu trosolwg o newidiadau i drefniadau staffio sy'n creu Tîm Dylunio Digidol ac Arloesi newydd, cryfhau ein trefniadau llywodraethu gwybodaeth ac ehangu cylch gwaith y tîm perfformiad presennol i gynnwys dadansoddeg ddata.

Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y cyfeiriad strategol a gymerir gan y timau hyn sydd wedi'u hail-bwrpasu wrth iddynt ddefnyddio buddsoddiad y cytunwyd arno fel rhan o broses gyllideb 2021-22 i drawsnewid sut rydym yn diwallu anghenion a chyflawni ein pwrpas y tu hwnt i'r pandemig ac i'r cam nesaf o ddatblygiad ein sefydliad a'n sir.

-
Awdur: Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi, Perfformiad a Chraffu
Sian Hayward, Pennaeth Digidol

Manylion Cyswllt: matthewgatehouse@monmouthshire.gov.uk
sianhayward@monmouthshire.gov.uk

i. **GWEITHGOR CRONFA EGLWYSI CYMRU**

185 -
196

Adran/Wardiau yr Effeithir arnynt: I gyd

Pwrpas: Pwrpas yr adroddiad hwn yw gwneud argymhellion i'r Cabinet ar yr Amserlen Ceisiadau ar gyfer cyfarfod 1 Gweithgor Cronfa Eglwysi Cymru a gynhaliwyd ar 15^{fed} Ebrill 2021 a chyfarfod 2 a gynhaliwyd ar 13^{eg} Mai 2021

Awdur: David Jarrett - Uwch Gyfrifydd - Cymorth Busnes Cyllid Canolog

-
Manylion Cyswllt: davejarrett@monmouthshire.gov.uk

Yours sincerely,

Paul Matthews

Chief Executive

PORTFFOLIOS CABINET

Cynghorydd Sir	Maes Cyfrifoldeb	Gwaith Partneriaeth ac Allanol	Ward
P.A. Fox (Arweinydd)	Strategaeth a Chyfeiriad Awdurdod Cyfan CCR Cyd Gabinet a Datblygu Rhanbarthol; Trosolwg Sefydliad; Gweithio Rhanbarthol; Cysylltiadau Llywodraeth; Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; WLGA	Cyngor WLGA WLGA Bwrdd Cydlynu Gwasanaethau Cyhoeddus	Porthysgewin
R.J.W. Greenland (Dirprwy Arweinydd)	Menter Cynllunio Defnydd Tir; Datblygu Economaidd; Twristiaeth; Rheoli Datblygu; Rheoli Adeiladu; Tai a Digartrefedd; Hamdden; Ieuencid; Addysg Oedolion; Addysg Awyr Agored; Hybiau Cymunedol; Gwasanaethau Diwylliannol	Cyngor WLGA Twristiaeth Rhanbarth y Brifddinas	Devauden
P. Jordan	Llywodraethiant Cefnogaeth y Cyngor a Phenderfyniadau Gweithrediaeth; Craffu; Safonau Pwyllgor Rheoleiddiol; Llywodraethiant Cymunedol; Cefnogaeth Aelodaeth; Etholiadau; Hyrwyddo Democratiaeth ac Ymgysylltu: Y Gyfraith; Moeseg a Safonau; Perfformiad Awdurdod Cyfan; Cynllunio a Gwerthuso Gwasanaeth Awdurdod Cyfan; Cydlynu Corff Rheoleiddiol		Cantref
R. John	Plant a Phobl Ifanc Safonau Ysgolion; Gwella Ysgolion; Llywodraethiant Ysgolion; Trosolwg EAS; Blynyddoedd Cynnar; Anghenion Dysgu Ychwanegol; Cynhwysiant; Cwricwlwm Estynedig; Derbyniadau; Dalgylchoedd; Cynnig Ôl-16; Cydlynu gyda Choleg Gwent.	Cyd Grŵp Addysg (EAS) CBAC	Llanfihangel Troddi
P. Jones	Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd Plant; Oedolion; Maethu a Mabwysiadu; Gwasanaeth Troseddu Ieuencid; Cefnogi Pobl; Diogelu Awdurdod Cyfan (Plant ac Oedolion); Anableddau; Iechyd Meddwl; Iechyd Cyhoeddus; Cydlynu Iechyd.		Rhaglan
P. Murphy	Adnoddau Cyllid; Technoleg Gwybodaeth (SRS); Adnoddau Dynol; Hyfforddiant; Iechyd a Diogelwch; Cynllunio Argyfwng; Caffaeliad; Archwilio; Tir ac Adeiladau (yn cynnwys Stadau, Mynwentydd, Rhandiroedd, Ffermydd); Cynnal a Chadw Eiddo; Swyddfa Ddigidol; Swyddfa Fasnachol	Consortium Prynu Prosiect Gwyrdd Cymru	Caerwent

S.B. Jones	Gweithrediadau Sir Cynnal a Chadw Priffyrdd, Rheoli Trafnidiaeth, Traffig a Rhwydwaith, Rheolaeth Stad; Gwastraff yn cynnwys Ailgylchu; Cyfleusterau Cyhoeddus; Meysydd Parcio; Parciau a Gofodau Agored; Glanhau; Cefn Gwlad; Tirluniau a Bioamrywiaeth; Risg Llifogydd.	SEWTA Prosiect Gwyrdd	Goetre Fawr
S. Jones	Cyfiawnder Cymdeithasol a Datblygu Cymunedol Ymgysylltu â'r Gymuned; Amddifadedd ar Arwahanrwydd; Diogelwch y Gymuned; Cydlyniaeth Gymdeithasol; Tlodi; Cydraddoldeb; Amrywiaeth; Y Gymraeg; Cysylltiadau Cyhoeddus; Safonau Masnach; Iechyd yr Amgylchedd; Trwyddedu; Cyfathrebu		Llanofar

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwmo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.